Wrth i chi bori ein gwefan, neu gysylltu â ni, neu ddefnyddio ein gwasanaethau, rydym yn casglu gwybodaeth. Mae hyn yn ein galluogi i ddeall beth sydd o ddiddordeb i chi, ac yn ein helpu i wella'r ffordd rydym yn cyfathrebu â chi am ein gwaith a sut y gallwch chi helpu.

Ni fyddwn byth yn gwerthu, rhentu, nac yn rhannu eich gwybodaeth â sefydliad arall at eu dibenion marchnata eu hunain. Fodd bynnag, mae angen i ni gasglu a defnyddio eich gwybodaeth bersonol at ddibenion busnes dilys a ystyrir yn ofalus, sy'n helpu Ymchwil Cancer Cymru (YCC) i godi arian yn effeithiol a chyflawni ein gwaith ymchwil sy'n achub bywydau.

Mae ein Polisi Preifatrwydd yn ystyried sawl cyfraith, gan gynnwys:

- Deddf Diogelu Data 2018

- Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebiadau Electronig (Cyfarwydddeb y CE) 2003
- Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (UE) 2016/679
- Deddf Data (Defnydd a Mynediad) 2025

Rydym yn cadw a phrosesu gwybodaeth bersonol cefnogwyr am nifer o resymau:

- Er mwyn cadw cofnod o roddion a wnaed a chamau a gymerwyd gan ein cefnogwyr a'n cyfathrebiadau â nhw;
- Anfon gwybodaeth farchnata at ein cefnogwyr, gan gynnwys gwybodaeth am ein prosiectau, ein gweithgareddau codi arian, ac apeliadau lle mae gennym eu cydsyniad neu y caniateir i ni wneud hynny, fel arall;
- Cefnogi gwirfoddolwyr, boed mewn siopau neu'n cymryd rhan mewn digwyddiadau codi arian;
- Hawlio Rhodd Cymorth ar roddion;
- Cyflawni rhwymedigaethau contractiol a wnaed gyda chefnogwyr, e.e. pryniannau ar-lein;
- Cadw pobl yn ddiogel, boed yn ymwelwyr â'n siopau, yn staff, neu'n gyfranogwyr mewn digwyddiadau;
- Cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol;
- Rheoli ein sefydliad; a
- Sicrhau nad ydym yn anfon gwybodaeth ddigroeso at gefnogwyr neu aelodau'r cyhoedd sydd wedi rhoi gwybod i ni nad ydynt eisiau i ni gysylltu â nhw.

O dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (**GDPR**), rydym yn dibynnu ar y seiliau cyfreithiol canlynol ar gyfer prosesu'r wybodaeth hon:

1. Eich cydsyniad. Gallwch dynnu eich cydsyniad yn ôl unrhyw bryd. Gallwch wneud hyn wrth gysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion uchod.
2. Mae gennym rwymedigaeth contractiol i brosesu'r wybodaeth
3. Mae gennym rwymedigaeth gyfreithiol i brosesu'r wybodaeth, neu mae angen y wybodaeth arnom er mwyn cyflawni tasg gyhoeddus.
4. Mae gennym fuddiant allweddol mewn prosesu'r wybodaeth.
5. Mae gennym fuddiant dilys mewn prosesu'r wybodaeth.

Rydym wedi nodi yn adran 4 isod y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu pob un o'r mathau o wybodaeth bersonol a gasglwn.

Rydym yn dibynnu ar sail "buddiannau dilys" i brosesu'r mathau canlynol o wybodaeth:

- Mae'n bosibl y byddwn yn anfon cyfathrebiadau atoch am ein gwaith a sut y gallwch chi helpu
- Dadansoddi a phroffilio ein cefnogwyr neu gefnogwyr posibl
- Diweddarau eich cyfeiriad gan ddefnyddio ffynonellau trydydd parti os ydych chi wedi symud tŷ
- Defnyddio gwybodaeth bersonol pan rydym yn monitro'r defnydd o'n gwefan neu apiau at ddibenion technegol

- Defnyddio gwybodaeth bersonol i weinyddu, adolygu, a chadw cofnod mewnol o'r bobl rydym yn gweithio gyda nhw, gan gynnwys cefnogwyr, gwirfoddolwyr ac ymchwilwyr
- Os ydych chi wedi cofrestru gyda ni am le elusennol ar gyfer digwyddiad a drefnir gan drydydd parti (er enghraifft ras redeg nodeddig nad yw wedi'i threfnu gan Ymchwil Cancer Cymru), rydym yn rhannu gwybodaeth bersonol gyda threfnydd y digwyddiad trydydd parti fel y gallant weinyddu'r digwyddiad

Rydym ond yn dibynnu ar fuddiannau dilys ar ôl ystyried unrhyw effaith bosibl arnoch chi (boed yn gadarnhaol neu'n negyddol), pa mor ymwithiol ydyw o safbwynt preifatrwydd, a'ch hawliau o dan gyfreithiau diogelu data, ac nad yw hyn yn mynd y tu hwnt i'n buddiannau ni (neu fuddiannau eraill) wrth ddefnyddio'ch gwybodaeth fel hyn.

Wedi i ddarpariaethau perthnasol Deddf Data (Defnydd a Mynediad) 2025 ddod i rym (disgwylir i hyn ddigwydd yn 2026), byddwn hefyd yn dibynnu ar y "system feddal o optio i mewn" ar gyfer anfon cyfathrebiadau marchnata uniongyrchol i hyrwyddo ein hamcanion elusennol i unigolion sydd wedi nodi eu bod yn dymuno cefnogi ein dibenion elusennol – megis unigolion sy'n mynychu ein digwyddiadau, yn rhoi rhoddion i ni, yn gwirfoddoli gyda ni ac ati.

4. Pa wybodaeth bersonol ydym ni'n ei chasglu a pham?

Mae'r math o wybodaeth a gasglwn a'r sail gyfreithlon sydd gennym dros wneud hynny yn dibynnu ar ein perthynas a'r ffordd rydym yn rhyngweithio â chi. Caiff hyn ei esbonio yn y tabl isod:

	Testun data	Y math o wybodaeth a brosesir	Beth a wnawn â'ch gwybodaeth	Ein sail gyfreithiol dros wneud hynny
1.	Staff a gwirfoddolwyr YCC (mae'r polisi gwirfoddolwyr yn cael ei ddiweddarau'n fewnol ar hyn o bryd)	• Enw a teitl • Cyfeiriad post • Rhif ffôn a chyfeiriad e-bost • Dyddiad geni • Manylion cyfrif banc • Manylion perthynas agosaf	Cadw'r wybodaeth yn ein cronfa ddata adnoddau dynol (naill ai'n electronig neu ar ffurf copi caled) i'w defnyddio mewn contractau a dogfennau eraill sydd gennych gyda ni, e.e. er mwyn talu eich cyflog	(2) – Rhwymedigaeth contractiol
		• Statws cyflogaeth a gwybodaeth gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd	Prosesu ceisiadau am swyddi, asesu addasrwydd ymgeiswyr, atal twyll a gwyngalchu arian, rheoli a diogelu gweithwyr a	(2) – Rhwymedigaeth contractiol

			gwirfoddolwyr, ymgymryd â gweithgareddau lleihau risgiau credyd	
		Recordiadau o gyfarfodydd Teams, lle bo hynny'n berthnasol ac yn ddefnyddiol	Eu storio ar systemau TG YCC cyhyd ag y bo angen	(1) – Cydsyniad
2.	Rhoddwyr a chodwyr arian ar gyfer YCC, gan gynnwys ymchwilwyr mewn prosiectau ymchwil.	- Enw a teitl - Cyfeiriad post - Rhif ffôn a chyfeiriad e-bost	Gwirio pwy ydych chi Cadw a defnyddio'r wybodaeth hon ar gyfer cyfathrebiadau marchnata a chodi arian	(2) – Rhwymedigaeth gontractiol (5) Buddiant dilyys
		Manylion eich banc neu gerdyn credyd/debyd os ydych chi'n eu darparu er mwyn rhoi rhodd neu wneud taliad	Trosglwyddo'r manylion yn ddiogel i'n proseswyr taliadau er mwyn prosesu taliadau	(2) – Rhwymedigaeth gontractiol
		- Gwybodaeth am eich perthynas agosaf ac unrhyw ofynion mynediad sydd gennych - E.e. os ydych chi'n cymryd rhan mewn digwyddiad gyda ni, neu'n rhannu eich profiad o ganser gyda ni	Trefnu a rheoli digwyddiadau a chefnogi gweithgareddau codi arian	(1) – Cydsyniad
		- Eich statws fel trethdalwr yn y DU - Eich datganiad Rhodd Cymorth - Swm y Rhodd	Cofnodi a defnyddio'r wybodaeth hon ar gyfer hawlio Rhodd Cymorth ar eich rhoddion	(3) – Rhwymedigaeth gyfreithiol

		Cymorth rydym wedi'i hawlio		
		- Gwybodaeth neu gyfathrebiadau am rodd a addawyd yn eich Ewyllys - Gwybodaeth ynghylch eich perthynas agosaf, e.e. i'n helpu i weinyddu eich Ewyllys	Defnyddio'r wybodaeth hon ar gyfer prosesu derbyn eich rhodd	(2) – Rhwymedigaeth contractiol
		- Hanes cyflogaeth gan gynnwys cais a manylion cyswllt, e.e. os ydych chi'n ymchwilydd yn gysylltiedig â grant neu brosiect ymchwil - Manylion banc ar gyfer talu cydnabyddiaethau, lle bo hynny'n briodol	Gwirio pwy ydych chi, prosesu cydnabyddiaethau, cynnal diwydrwydd dyladwy a sgrinio moesegol	(2) – Rhwymedigaeth contractiol
		Ffotograffau neu fideos ohonoch chi, e.e. os ydych chi'n cymryd rhan mewn digwyddiad neu'n rhannu eich stori	Rhannu cynnwys ar ein Gwefan a'n tudalennau cyfryngau cymdeithasol, ac mewn cyfathrebiadau marchnata, er enghraifft cylchlythyrau neu apeliadau Postio Uniongyrchol	(1) – Cydsyniad
3.	Aelodau eraill o'r cyhoedd	- Enw a teitl - Cyfeiriad post - Rhif ffôn a chyfeiriad e-bost - Rhywedd	Cadw a defnyddio'r wybodaeth hon ar gyfer cyfathrebiadau marchnata a chodi arian	(5) Buddiant dilys
		Eich gweithgareddau	At ddibenion monitro, e.e. i'n helpu i ddeall	(5) Buddiant dilys

		ar ein Gwefan a'n platfformau cyfryngau cymdeithasol Gwybodaeth am y ddyfais rydych chi'n ei defnyddio i gael mynediad i'n Gwefan, e.e. cyfeiriad IP a lleoliad	sut mae pobl yn defnyddio ein gwefan, nodi lleoliad ymwelwyr, gwarchod rhag defnydd sy'n tarfu ar eraill, monitro traffig y wefan, personoli gwybodaeth a gyflwynir i ddefnyddwyr, darparu hysbysebion wedi'u targedu i ddefnyddwyr, dadansoddi a gwella cynnwys a gweithrediad ein gwefan, ac arddangos cynnwys mewn ffordd sy'n briodol i'r ddyfais a ddefnyddir	
		- Gwybodaeth am y gwasanaethau rydych chi'n eu defnyddio ac unrhyw bryniannau neu roddion a wnewch - Eich dewisiadau cyswllt marchnata - Cyfathrebiadau rhyngom ni a chi	At ddibenion marchnata, e.e. darparu gwybodaeth, cynhyrchion neu wasanaethau rydych chi wedi gofyn amdanynt gennym ni, neu y teimlwn y gallent fod o ddiddordeb i chi, ac addasu hysbysebu yn unol â'ch diddordebau	(5) Buddiant dilys

Data Categori Arbennig

Mae cyfraith diogelu data yn cydnabod bod rhai mathau o wybodaeth bersonol, sef **Data Categori Arbennig**, yn fwy sensitif. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud ag iechyd, hil, tarddiad ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol, aelodaeth o undeb llafur, geneteg a biometreg.

Mewn achosion cyfyngedig, mae'n bosibl y byddwn yn casglu data categori arbennig amdanoch chi. Byddem yn gwneud hyn dim ond os oes rheswm clir dros wneud, neu er

mwyn darparu cyfleusterau neu gymorth priodol. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn casglu'r math hwn o wybodaeth os ydych chi'n ei gwneud yn gyhoeddus neu'n ei rhannu â ni, er enghraifft os ydych chi'n rhannu eich profiad o ganser gyda ni. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ddienw er mwyn helpu i fonitro cyfle cyfartal.

Ein nod yw egluro pam rydym yn casglu'r math hwn o wybodaeth a sut y bydd yn cael ei defnyddio.

Mae'r holl ddata gwybodaeth bersonol sensitif yn cael ei storio ar gronfa ddata ddiogel y mae gan nifer gyfyngedig yn unig o staff perthnasol fynediad iddi. Caiff ei dileu pan nad yw'n berthnasol mwyach, ni chaiff ei rhannu â thrydydd partion, ac mae ar gael i chi ar unrhyw adeg os hoffech ei gweld.

Data Plant

Mae Ymchwil Cancer Cymru yn gweithio ar hyn yn fewnol ar hyn o bryd a bydd yr adran hon yn cael ei diweddarau, maes o law.

5. Sut rydym ni'n casglu gwybodaeth amdanoch chi

Mae'n bosibl y byddwn yn casglu eich gwybodaeth bersonol yn yr amgylchiadau canlynol:

Pan fyddwch chi'n ei darparu i ni'n uniongyrchol

Mae'n bosibl y byddwch chi'n rhoi eich gwybodaeth i ni'n uniongyrchol trwy amrywiaeth o ddulliau; ar lafar, yn electronig, neu ar bapur. Mae'n bosibl y bydd gwybodaeth o'r fath yn cael ei darparu er mwyn gwneud rhodd, rhannu eich stori, cyflwyno ymholiad drwy ffurflen ar-lein, cofrestru ar gyfer un o'n digwyddiadau, prynu o'n siopau, cofrestru fel gwirfoddolwr, gwneud cais am gyllid ymchwil, gwneud cais am swydd, neu gyfathrebu â ni, fel arall.

Pan fyddwch chi'n ei darparu i ni'n anuniongyrchol

Gall trydydd partion rannu eich gwybodaeth gyda ni, er enghraifft:

- pan rydych chi'n cofrestru ar gyfer digwyddiadau fel Marathon Llundain, yn cyfrannu at safleoedd codi arian fel Just Giving, Enthuse, Facebook, neu'n creu tudalen goffa neu'n cysylltu â threfnwyr angladdau. Bydd y trydydd partion annibynnol hyn yn trosglwyddo eich gwybodaeth i ni os ydych chi wedi nodi eich bod chi eisiau cefnogi Ymchwil Cancer Cymru ac wedi rhoi eich caniatâd, neu os yw'n rhan angenrheidiol o gyflawni contract gyda chi;
- trydydd partion, is-gontractwyr a phartneriaid busnes awdurdodedig sy'n darparu gwasanaethau technegol, talu neu gyflenwi i ni, rhwydweithiau hysbysebu a darparwyr gwybodaeth chwilio/dadansoddol a ddefnyddir ar ein gwefan;
- os yw ffrind neu aelod o'r teulu yn eich cofrestru ar gyfer un o'n digwyddiadau;

- os ydych chi'n ymchwilydd ac mae eich gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda ni gan y prif ymchwilydd neu sefydliad;
- os ydych chi wedi rhoi caniatâd i gwmni neu sefydliad arall rannu eich data gyda thrydydd partïon, gan gynnwys elusennau.

Pan rydych chi'n darparu gwybodaeth bersonol i drydydd parti, byddem yn eich annog i wirio unrhyw Bolisi Preifatrwydd a ddarperir.

Pan rydych chi'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol Ymchwil Cancer Cymru

Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cael eich gwybodaeth bersonol trwy eich defnydd o gyfryngau cymdeithasol a gwasanaethau negeseua fel Facebook, Twitter a WhatsApp, yn dibynnu ar eich gosodiadau neu bolisiâu preifatrwydd y gwasanaethau hyn. O'r herwydd, rydym yn eich annog i adolygu eich caniatâd a'ch gosodiadau preifatrwydd yn rheolaidd.

Yn benodol, pan rydym yn cynnal ymgyrch farchnata neu godi arian ar Facebook, mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio offeryn o'r enw Facebook Pixel, sy'n ein helpu i ddeall effeithiolrwydd ein hysbysebu wrth roi gwybod i ni pan mae defnyddwyr yn clicio ar ddolenni i'n hymgyrchoedd, a'r hyn maen nhw'n ei wneud ar ôl clicio ar ddolen o Facebook i'n Gwefan.

Mae rhagor o wybodaeth am Facebook Pixel ar gael [yma](#).

Pan mae'r wybodaeth ar gael yn gyhoeddus

Efallai y byddwn yn defnyddio gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus, fel erthyglau papur newydd, cofrestrau etholiadol, a gwybodaeth gan Dŷ'r Cwmnïau. Mae'n bosibl y byddwn yn cyfuno'r math hwn o wybodaeth â gwybodaeth a roddwch chi i ni, cyn belled â'i bod yn rhesymol gwneud hynny, er mwyn cael dealltwriaeth well o'n cefnogwyr fel y gallwn wella ein dulliau codi arian, ein cynhyrchion a'n gwasanaethau, neu er mwyn cadw ein gwybodaeth yn gyfredol.

Pan rydych chi'n defnyddio ein gwefan

Pan rydych chi'n defnyddio ein gwefan, mae Ymchwil Cancer Cymru yn defnyddio cwcis i wella ein gwefan a phrofiadau defnyddwyr. Gallwch weld ein Polisi Cwcis [yma](#).

Yn unol ag arfer gyffredin ar wefannau, byddwn hefyd yn derbyn gwybodaeth yn awtomatig pan fyddwch chi'n defnyddio ein gwefan, megis pa dudalennau rydych chi wedi ymweld â nhw, pa fath o ddyfais rydych chi'n ei defnyddio, pa fath o borwr, eich cyfeiriad IP, ac unrhyw wallau a ddigwyddodd. Bydd gan wneuthurwr eich dyfais ragor o fanylion am y wybodaeth y mae eich dyfais yn ei darparu i ni.

Mae ein Gwefan yn cynnwys hyperddolenni i wefannau sy'n eiddo i sefydliadau eraill, ac fel y cyfryw, mae ganddynt eu polisiâu preifatrwydd eu hunain, ac rydym yn eich annog i'w hadolygu.

Rhannu eich stori neu brofiad

Mae rhai pobl yn dewis rhannu eu stori neu eu profiad o ganser gyda ni. Gall hyn gynnwys gwybodaeth sensitif am eu hiechyd a'u teulu, yn ogystal â lluniau a/neu fideos. Byddwn bob amser yn sicrhau bod gennym gydsyniad penodol a gwybodus gennych chi, neu'ch rhiant neu warcheidwad os ydych chi o dan 16 oed, i gasglu a phrosesu'r wybodaeth hon, a all gael ei rhannu mewn deunyddiau hyrwyddo, ymgyrchoedd codi arian, neu ddigwyddiadau, neu mewn dogfennau fel ein hadroddiad blynyddol. Byddwn yn gofyn am eich cydsyniad ar yr adeg y byddwn yn casglu'r wybodaeth, ac ni fyddwn byth yn defnyddio'ch gwybodaeth heb eich cydsyniad. Byddwn bob amser yn cadw'r wybodaeth hon yn ddiogel.

Os penderfynwch nad ydych eisiau i ni ddefnyddio eich stori a'ch gwybodaeth mwyach, cysylltwch â ni ar 029 2185 5050 neu contact-us@cancerresearchwales.org.uk.

6. Sut a phryd y byddwch yn clywed gennym

Credwn ei bod yn bwysig rhoi gwybod i'n cefnogwyr sut mae eu harian yn cael ei wario ac i ddiolch iddynt am eu haelioni. Rydym yn anfon gwybodaeth at unigolion sydd wedi'n cefnogi i ddweud diolch a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ein gwaith. Byddwn yn addasu faint o gyfathrebiadau a pha fath, yn dibynnu ar y ffyrdd rydych chi wedi darparu cefnogaeth.

Os byddwch chi'n gofyn am fanylion, neu'n cofrestru ar gyfer, digwyddiad neu weithgarwch codi arian gan YCC, byddwn yn anfon gwybodaeth atoch gan gynnwys, lle bo hynny'n berthnasol, syniadau ar gyfer codi arian, gwybodaeth allweddol am y gweithgarwch, a nodiadau atgoffa am drosglwyddo unrhyw arian a godwyd.

Os byddwch wedi cofrestru ar gyfer digwyddiad gyda thrydydd parti (er enghraifft Marathon Llundain) ac wedi dweud wrth drefnydd y digwyddiad eich bod yn dymuno codi arian i ni, mae'n bosibl y byddwn yn cysylltu â chi i gynnig gwybodaeth a chefnogaeth o ran codi arian yn y digwyddiad hwnnw.

Os byddwch chi'n cymryd rhan mewn YCC neu ddigwyddiad trydydd parti, mae'n bosibl y byddwn ni'n cysylltu â chi i roi gwybod bod y digwyddiad yn cael ei gynnal eto, a sut y gallwch chi gofrestru, oni bai eich bod chi wedi dewis yn benodol i beidio â derbyn cyfathrebiadau marchnata pellach.

Mae gallu cysylltu â chefnogwyr blaenorol i ofyn iddynt ystyried ein cefnogi eto yn ffordd gost-effeithiol iawn o godi arian. Mae ein cyfathrebiadau marchnata'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am ein darganfyddiadau, ein hymgyrchoedd, a'n gwaith achub bywydau, a cheisiadau am roddion neu gymorth arall. Pan fyddwch chi'n rhoi eich manylion i ni, gofynnir i chi optio i mewn i dderbyn cyfathrebiadau marchnata. Os penderfynwch optio i mewn, bydd ein cyfathrebiadau marchnata bob amser yn rhoi ffordd i chi optio allan o'u derbyn.

Pan ddaw darpariaethau perthnasol Deddf Data (Defnydd a Mynediad) 2025 i rym, byddwn yn dibynnu ar y darpariaethau "system feddal o optio allan" i ychwanegu unigolion sydd wedi mynegi diddordeb mewn cefnogi ein hamcanion elusennol – gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gefnogwyr, rhoddwyr, gwirfoddolwyr, a phobl sydd wedi cofrestru ar gyfer ein digwyddiadau. Bydd hyn ond yn berthnasol i'r unigolion hynny y cesglir eu

manyllion ar ôl i ddarpariaethau perthnasol Deddf Data (Defnydd a Mynediad) 2025 ddod i rym, a byddwch yn gallu optio allan o'r rhestr bostio hon ar yr adeg y byddwn yn casglu eich manyllion, ac ar unrhyw adeg yn y dyfodol.

Mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio gwybodaeth sydd gennym amdanoch, er enghraifft cofnod o'ch rhoddion blaenorol i ni, a/neu'ch perthynas â ni, eich lleoliad a'ch demograffeg, yn ogystal â'r math o weithgarwch rydych wedi bod yn rhan ohono, i addasu ein cyfathrebiadau â chi ynghylch gweithgareddau yn y dyfodol.

Os byddwch chi'n penderfynu nad ydych eisiau i ni gysylltu â chi at ddibenion marchnata, mae'n bosibl y bydd angen i ni barhau i gysylltu â chi at ddibenion gweinyddol. Gall hyn gynnwys wrth brosesu rhodd rydych wedi'i gwneud ac unrhyw Rodd Cymorth cysylltiedig, neu ddiolch i chi am rodd neu am gymryd rhan mewn digwyddiad, neu wrth gadw mewn cysylltiad â chi ynghylch eich gweithgareddau gwirfoddoli gyda ni.

Rheoli eich dewisiadau cyswllt

Rydym yn ei gwneud hi'n hawdd i chi ddweud wrthym sut rydych eisiau i ni gadw mewn cysylltiad â chi. Mae ein ffurflenni'n cynnwys cwestiynau clir ynghylch dewisiadau marchnata, a gwybodaeth am sut i optio allan pan fyddwn yn anfon cyfathrebiadau atoch. Os nad ydych eisiau clywed gennym, gallwch newid eich dewisiadau ar unrhyw adeg. Rhowch wybod i ni pan fyddwch chi'n darparu eich data, neu gallwch gysylltu ar 029 2185 5050 neu contact-us@cancerresearchwales.org.uk.

Rydym yn cydnabod nad yw cydsyniad yn parhau am byth a bod amgylchiadau'n newid. Byddwn yn ystyried pryd y gwnaethoch chi roi caniatâd ddiwethaf a natur eich cefnogaeth wrth benderfynu a yw'n dal yn briodol i ni gysylltu â chi. Gallwch newid eich meddwl am eich dewisiadau unrhyw bryd wrth gysylltu â ni ar 029 2185 5050 neu contact-us@cancerresearchwales.org.uk.

7. Rhannu eich gwybodaeth bersonol

Ni fyddwn byth yn gwerthu, rhentu na rhannu eich gwybodaeth bersonol â thrydydd partïon at eu dibenion marchnata eu hunain.

Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth â thrydydd partïon gan gynnwys:

- Partneriaid a ddewiswyd yn ofalus sy'n gwneud gwaith ar ein rhan, fel cwmnïau postio, asiantaethau marchnata, arbenigwyr TG, a chwmnïau ymchwil. Mae'n bosibl eu bod yn gwneud gwaith fel prosesu, pecynnu, postio a dosbarthu pryniannau, anfon post neu e-bost, cynnal gwaith ymchwil neu ddadansoddi, a phrosesu taliadau neu roddion trwy gerdyn neu Ddebyd Uniongyrchol. Dim ond partneriaid y gallwn ymddiried ynddynt a ddewiswn;
- Darparwyr digwyddiadau a llwyfannau rhoddion, os ydych chi'n rhoddwr neu'n wirfoddolwr;
- Ymchwilwyr, paneli cyngori gwirfoddolwyr, cyd-gyllidwyr gwaith ymchwil, sefydliadau cynnal, ac aelodau allanol o'n pwyllgorau;
- Cyd-fuddiolwyr, os ydych chi'n rhoddwr trwy ewyllys;

- CThEF, darparwyr pensiynau, cwmnïau yswiriant bywyd, a darparwyr dadansoddeg a chwioltwyr, os ydych chi'n weithiwr neu'n ymgeisydd am swydd;
- Os byddwch chi wedi cytuno i dderbyn cyfathrebiadau marchnata drwy e-bost gennym, mae'n bosibl y byddwn ni'n darparu eich cyfeiriad e-bost mewn fformat wedi'i amgryptio i gwmnïau cyfryngau cymdeithasol neu i rwydweithiau hysbysebu digidol sy'n darparu gwasanaethau i ni wrth arddangos ein hysbysebion i chi ar y llwyfannau cyfryngau cymdeithasol hynny a gwefannau eraill, yn ogystal ag adnabod cynulleidfaoedd sydd â diddordebau tebyg i'ch rhai chi. Gallwch chi optio allan o'r defnydd hwn o'ch data wrth gysylltu â ni neu ein Swyddog Diogelu Data, fel y disgrifir isod. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn atal ein hysbysebion rhag cael eu dangos i chi ar hap neu ar sail data cwcis, a gall olygu na fyddwch chi'n derbyn cyfathrebiadau marchnata gennym yn fwy cyffredinol; a
- Darparwyr gwasanaethau TG, os ydych chi'n aelod o staff YCC sy'n defnyddio ein systemau TG.

Lle mae'n ofynnol i ni yn ôl y gyfraith neu o dan ddyletswydd reoleiddiol i wneud hynny, mae'n bosibl y byddwn yn darparu eich gwybodaeth i gyrff gorfodi'r gyfraith, cyrff rheoleiddio, neu gynghorwyr cyfreithiol, neu pan rydym yn credu bod hynny'n angenrheidiol er mwyn diogelu neu amddiffyn ein hawliau, ein heiddo neu ddiogelwch personol ein pobl neu ymwelwyr â'n hadeiladau neu ein gwefannau.

8. Sut rydym yn diogelu eich gwybodaeth bersonol

Mae Ymchwil Cancer Cymru wedi ymrwymo i ddiogelu'r wybodaeth bersonol rydych chi'n ei rhannu gyda ni. Rydym wedi gweithredu mesurau technegol, ffisegol a threfniadol priodol i sicrhau diogelwch eich gwybodaeth wedi i ni ei derbyn. Er enghraifft, rydym yn defnyddio gweithdrefnau a nodweddion diogelwch caeth i atal mynediad heb awdurdod i'ch gwybodaeth bersonol.

Fodd bynnag, ni allwn warantu diogelwch eich gwybodaeth pan gaiff ei throsglwyddo dros y rhyngwyd neu ei hanfon drwy'r post, felly, mae unrhyw drosglwyddiad ar eich cyfrifoldeb eich hun.

Mae'r holl wybodaeth a roddwch i ni yn cael ei storio ar weinyddion diogel a bydd unrhyw fanylion talu yn cael eu trosglwyddo'n ddiogel i'n darparwyr prosesu taliadau yn unol â Safonau Diogelwch y Diwydiant Cardiau Talu a byddant wedi'u hamgryptio gan ddefnyddio technoleg SSL. Os ydym wedi rhoi cyfrinair i chi (neu os ydych chi wedi dewis cyfrinair) sy'n eich galluogi i gael mynediad at rannau penodol o'n gwefan, rydych chi'n gyfrifol am gadw'r cyfrinair hwn yn gyfrinachol. Gofynnwn i chi beidio â rhannu cyfrinair ag unrhyw un.

Mae'n bosibl y bydd y wybodaeth a gasglwn gennych, ar adegau, yn cael ei throsglwyddo i gyrchfan y tu allan i'r Deyrnas Unedig (DU), a'i storio yno. Mae'n bosibl y bydd yn cael ei throsglwyddo i drydydd partïon y tu allan i'r DU er mwyn hyrwyddo ein gweithgareddau elusennol. Gall hefyd gael ei phrosesu gan staff sy'n gweithredu y tu allan i'r DU sy'n gweithio i ni, neu i un o'n his-gontractwyr neu bartneriaid busnes, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud, ymhlith pethau eraill, â chynnal adolygiadau gan gymheiriaid o'r gwaith ymchwil a gyllidir gennym. Wrth gyflwyno eich gwybodaeth bersonol, rydych yn cytuno i'r

trosglwyddo, y storio neu'r prosesu hwn. Byddwn yn cymryd pob cam rhesymol angenrheidiol i sicrhau bod eich gwybodaeth yn cael ei thrin yn ddiogel ac yn unol â'r polisi preifatrwydd hwn. Pryd bynnag y byddwn yn trosglwyddo eich data personol allan o'r DU i wledydd sydd â chyfreithiau nad ydynt yn darparu'r un lefel o ddiogelwch data â chyfraith y DU, rydym bob amser yn sicrhau ei bod yn cael ei thrin â lefel debyg o ddiogelwch. Er enghraifft, mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio telerau contractiol safonol penodol a gymeradwywyd i'w defnyddio yn y DU, sy'n rhoi'r un diogelwch i'r data personol a drosglwyddwyd ag sydd ganddo yn y DU.

9. Am ba hyd rydym yn cadw eich gwybodaeth

Byddwn yn cadw ac yn dileu eich gwybodaeth bersonol yn unol â'n polisiâu mewnol ac ni fyddwn yn ei chadw'n hirach nag sy'n rhesymol angenrheidiol at y dibenion y cafodd ei chasglu ar eu cyfer. Mae pa mor hir y caiff ei storio yn dibynnu ar y wybodaeth dan sylw, yr hyn y caiff ei defnyddio ar ei gyfer, ac weithiau, gofynion cyfreithiol statudol, er enghraifft gofynion o ran trethi, neu iechyd a diogelwch.

10. Eich hawliau diogelu data

O dan gyfraith diogelu data, mae gennych rai hawliau penodol dros eich gwybodaeth bersonol a sut rydym yn ei defnyddio, a rhoddir crynodeb isod.

Os ydych chi'n dymuno arfer unrhyw un o'r hawliau hyn, cysylltwch â ni wrth ysgrifennu at Ymchwil Cancer Cymru, 22 Llys Neifion, Ffordd Vanguard, Caerdydd, CF24 5PJ, neu trwy e-bostio ni ar contact-us@cancerresearchwales.org.uk.

Mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i ni ofyn am ragor o wybodaeth a/neu dystiolaeth o bwy ydych chi. Byddwn yn ystyried pob cais yn unol â'r holl gyfreithiau a rheoliadau diogelu data perthnasol, a byddwn yn ymdrechu i ymateb yn llawn i bob cais o fewn mis. Nid yw'n ofynnol i chi dalu unrhyw ffi am arfer eich hawliau.

Sylwer bod eithriadau'n berthnasol i nifer o'r hawliau hyn, ac ni fydd pob hawl yn berthnasol ym mhob amgylchiadau. I gael rhagor o wybodaeth, gweler y canllawiau ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

O dan gyfraith diogelu data'r DU, mae gennych nifer o hawliau, gan gynnwys:

- **Yr hawl i gael gwybod** – mae gennych yr hawl i gael gwybod bod eich gwybodaeth bersonol yn cael ei chasglu a'i defnyddio, ac mae'n ofynnol i ni fod yn dryloyw ynghylch sut rydym yn gwneud hyn.
- **Yr hawl i gael mynediad** – Mae gennych yr hawl i gael mynediad at unrhyw wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch, a derbyn copi ohoni.
- **Yr hawl i gywiro** – Mae gennych yr hawl i gael eich gwybodaeth bersonol anghywir wedi'i chywiro, neu wedi'i chwblhau os yw'n anghyflawn.

- **Yr hawl i ddileu** – Mae gennych hawl i gael eich gwybodaeth bersonol wedi'i dileu. Gelwir hyn hefyd yn 'hawl i gael eich anghofio'. Nid yw'r hawl hon yn absoliwt ac mae'n berthnasol mewn rhai amgylchiadau yn unig.
- **Yr hawl i gyfyngu ar brosesu** – Mae gennych yr hawl i ofyn i ni gyfyngu ar brosesu eich gwybodaeth, neu ei atal. Nid yw'r hawl hon yn absoliwt ac mae'n berthnasol mewn rhai amgylchiadau penodol yn unig. Os byddwch yn arfer yr hawl hon, byddwn yn parhau i storio eich data, ond ni fyddwn yn ei ddefnyddio.
- **Yr hawl i gludadwydd data** – Mae gennych hawl i gael eich gwybodaeth bersonol gennym a'i hailddefnyddio at eich dibenion eich hun ar draws gwasanaethau gwahanol heb effeithio ar ei defnyddioldeb, neu i ofyn i ni drosglwyddo'r wybodaeth hon yn uniongyrchol i reolwr data arall. Mae'r hawl hon yn berthnasol i wybodaeth a ddarparwyd gennych i ni'n uniongyrchol yn unig.
- **Yr hawl i wrthwynebu** – Mae gennych yr hawl i wrthwynebu prosesu eich gwybodaeth bersonol mewn rhai amgylchiadau. Rhaid i ni ddweud wrthyh am eich hawl i wrthwynebu. Nid yw'r hawl i wrthwynebu yn absoliwt, ond rhaid i ni gydymffurfio ag unrhyw gais i roi'r gorau i brosesu eich gwybodaeth bersonol at ddibenion marchnata uniongyrchol.
- **Eich hawliau yn gysylltiedig â phenderfyniadau sy'n seiliedig ar brosesu awtomatig, gan gynnwys proffilio** – Mae gennych yr hawl i beidio â bod yn destun penderfyniad sy'n seiliedig ar brosesu awtomataidd yn unig, gan gynnwys proffilio, sy'n creu effeithiau cyfreithiol sy'n ymwneud â chi neu sy'n effeithio'n sylweddol arnoch chi.

Nid yw'n ofynnol i chi dalu unrhyw ffi am arfer eich hawliau diogelu data a nodir uchod. Os gwnewch gais, mae gennym fis i ymateb i chi.

11. Beth i'w wneud os nad ydych yn hapus â'n defnydd o'ch gwybodaeth

Yn y lle cyntaf, siaradwch â ni'n uniongyrchol fel y gallwn ni helpu i ddatrys unrhyw broblem neu ymholiad. Rydym yn gwerthfawrogi derbyn adborth a fydd yn ein helpu i ddysgu a gwella. Gallwch gysylltu â ni drwy'r post neu e-bost, a byddwn yn ymateb i unrhyw gŵynion a dderbyniwn. Gallwch ddarllen rhagor am ein Polisi Pryderon a Chwynion [yma](#).

Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch ein defnydd o'ch gwybodaeth bersonol, gallwch wneud cwyn i ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Mae gennych hefyd yr hawl i gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) os oes gennych unrhyw bryderon. Mae manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth isod:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow

Cheshire SK9 5AF

Rhif llinell gymorth: 0303 123 1113

Gwefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: www.ico.org.uk

12. Newidiadau i'r polisi preifatrwydd hwn a'ch dyletswydd i roi gwybod i ni am newidiadau

Rydym yn adolygu ein polisi preifatrwydd yn rheolaidd. Diweddarwyd y fersiwn hon ddiwethaf yn 2025.

Mae'n bwysig bod y data personol sydd gennym amdanoch yn gywir ac yn gyfredol. Rhowch wybod i ni os bydd eich data personol yn newid yn ystod eich perthynas â ni, er enghraifft cyfeiriad neu gyfeiriad e-bost newydd.

13. Dolenni trydydd parti

Gall ein gwefan gynnwys dolenni i wefannau, ategion a chymwysiadau trydydd parti. Gall clicio ar y dolenni hynny neu alluogi'r cysylltiadau hynny ganiatáu i drydydd parti'ion gasglu neu rannu data amdanoch chi. Nid ydym yn rheoli'r gwefannau trydydd parti hyn ac nid ydym yn gyfrifol am eu datganiadau preifatrwydd. Pan fyddwch chi'n gadael ein gwefan, rydym yn eich annog i ddarllen polisi preifatrwydd pob gwefan rydych chi'n ymweld â hi.